Undeb Myfyrwyr PCYDDS
UWTSD Students' Union

# Myfyrwyr Ymddiriedolwyr



## Disgrifiad o'r Rôl

# Disgrifiad o'r Rôl

| | |
|---|---|
| **Rôl** | Myfyrwyr Ymddiriedolwr |
| **Yn atebol i** | Bwrdd yr Ymddiriedolwyr; Comisiwn Elusennau |
| **Cyflog** | Rôl wirfoddol ddi-dâl yw hon, ond mae'n gymwys ar gyfer treuliau rhesymol yn unol â pholisi treuliau Undeb y Myfyrwyr |
| **Cyfnod y swydd** | Un flwyddyn; rhaid i chi barhau i fod yn fyfyriwr am gyfnod llawn y penodiad |
| **Cysylltiadau Allweddol** | Ymddiriedolwyr Sabothol, Myfyrwyr Ymddiriedolwyr, Ymddiriedolwyr Allanol, Prif Weithredwr, Pennaeth Busnes a Chyllid, Pennaeth Gwasanaethau Aelodaeth, Rheolwr Llywodraethiant a Gweinyddiaeth |

# Prif Ddiben y Rôl

Mae Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn gyfrifol am reoli a gweinyddu'r Undeb ac (yn amodol ar y Ddeddf Addysg a Chyfansoddiad Undeb Myfyrwyr y Drindod Dewi Sant a'i Is-ddeddfau) gall arfer holl bwerau'r Undeb.

Mae pwerau'r Bwrdd yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, gyfrifoldeb am: lywodraethiant yr Undeb; cyllideb yr Undeb; a strategaeth yr Undeb.

# Cyfrifoldebau a Dyletswyddau

## Prif Gyfrifoldebau

1. Sicrhau bod gwaith Undeb y Myfyrwyr yn adlewyrchu ei amcanion, ei genhadaeth a'i werthoedd, a'i fod o fudd i holl fyfyrwyr PCyDDS.
2. Sicrhau bod Undeb y Myfyrwyr yn gweithredu mewn modd effeithiol, cyfrifol ac atebol o fewn anghenion cyfreithiol ac ariannol mudiad elusennol.
3. Penderfynu ar gyfeiriad strategol cyffredinol Undeb y Myfyrwyr a datblygu'r mudiad yn unol ag egwyddorion llywodraethiant da.
4. Cynnal rheolaeth ariannol gadarn a rheoli cronfeydd ariannol ac adnoddau i sicrhau bod y mudiad yn parhau i fod yn hyfyw
5. Cynorthwyo â datblygiad Undeb y Myfyrwyr trwy oruchwylio cynllunio strategol clir, wedi'i seilio ar ddealltwriaeth gydlynol o'r amgylchedd y mae'r mudiad yn gweithredu ynddo.
6. Dynodi a goruchwylio rheolaeth dros unrhyw risg ariannol, cyfreithiol neu arall i Undeb y Myfyrwyr.

## Dyletswyddau Penodol

1. Mynychu o leiaf bedwar cyfarfod Bwrdd yr Ymddiriedolwyr bob blwyddyn academaidd. Gallwch ddewis mynychu cyfarfodydd trwy ddulliau electronig.
2. Darllen yr holl bapurau a ddosbarthwyd ar gyfer trafod yn drylwyr, a pharatoi syniadau a chyfraniadau cyn cyfarfodydd.
3. Ynghyd ag aelodau eraill y Bwrdd, gosod y cyfeiriad ar gyfer staff a gwneud penderfyniadau ar faterion sy'n perthyn i strategaeth, polisi, cyllido a gweithrediad Undeb y Myfyrwyr.
4. Monitro perfformiad Undeb y Myfyrwyr gan ddefnyddio dangosyddion perfformiad allweddol, adroddiadau ar brosiectau a chyfrifon rheolwyr.

5. Ynghyd ag aelodau eraill y Bwrdd, gosod amcanion strategol, ac adolygu gwaith Prif Weithredwr Undeb y Myfyrwyr.
6. Cymryd rhan mewn is-bwyllgorau a grwpiau prosiect sy'n berthnasol i'ch arbenigedd
7. Cyfranogi yn y broses o recriwtio aelodau'r Bwrdd a staff Undeb y Myfyrwyr yn ôl y galw.
8. Bod yn rhan o faterion apeliadau yn unol â gofynion y ddogfen lywodraethu.
9. Ymgymryd â phroses sefydlu ac unrhyw hyfforddiant arall fydd yn eich cynorthwyo i gyflawni'r dyletswyddau uchod
10. Hyrwyddo gwerthoedd a gwaith Undeb y Myfyrwyr, a gweithredu er budd y mudiad bob amser.
11. Cyflawni dyletswyddau ac aseiniadau eraill a ofynnir gennych o bryd i'w gilydd gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr.

# Manyleb y Person

**Hanfodol**

1. Brwdfrydedd dros werthoedd Undeb y Myfyrwyr fel sefydliad democrataidd, cyfranogol, dan arweiniad myfyrwyr
2. Ymrwymiad i dreulio amser a rhoi'r sylw angenrheidiol i rôl Myfyriwr Ymddiriedolwr
3. Gallu i weithio'n effeithiol fel aelod o dîm sydd â lefelau amrywiol o brofiad
4. Gallu i wneud a mynegi penderfyniadau annibynnol
5. Gallu i gyfathrebu'n effeithiol
6. Ymrwymiad i gadw at saith egwyddor Nolan o fywyd cyhoeddus – anhunanoldeb, uniondeb, gwrthrycholdeb, atebolrwydd, didwylledd, gonestrwydd ac arweinyddiaeth

**Desirable**

1. Y gallu i feddwl yn strategol
2. Dealltwriaeth o rôl Myfyriwr Ymddiriedolwr, gan gynnwys cyfrifoldebau cyfreithiol ac ariannol (er y darperir hyfforddiant llawn)
3. Gwybodaeth a phrofiad blaenorol o fod yn ymddiriedolwr neu rôl debyg arall berthnasol
4. Dealltwriaeth o faterion sy'n ymwneud ag anghydraddoldeb cymdeithasol
5. Syniadau'n ymwneud â chynyddu ymgysylltiad myfyrwyr a datblygu gweithgareddau dan arweiniad yr aelodaeth

# Amrywioldeb

Mae Undeb Myfyrwyr PCyDDS yn croesawu ceisiadau gan bawb, waeth beth fo'u hoedran, rhywedd, ethnigrwydd, cyfeiriadedd rhywiol, cred neu anabledd.

Gwneir pob penodiad ar sail teilyngdod, gan ddilyn proses deg a thryloyw. Yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010, fodd bynnag, gall y sefydliad ddefnyddio camau cadarnhaol lle gall ymgeiswyr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol ddangos eu gallu i gyflawni'r rôl cystal.

# Cyfnod y penodiad

Nid oes tâl am y rôl hon, a bydd costau teithio domestig rhesymol, a gytunwyd ymlaen llaw, yn cael eu had-dalu. Mae cyfarfodydd y bwrdd yn para tua thair awr gyda phapurau'n cael eu rhannu'r wythnos cynt i'w darllen ac er mwyn i chi baratoi. Mae cyfarfodydd is-bwyllgorau'n para tua awr. Rydym yn hyblyg o ran amseroedd, ac mae pob cyfarfod yn cael ei gofnodi a'i recordio os yw pobl eisiau dal i fyny oherwydd eu bod wedi colli cyfarfodydd.

# Y Broses Benodi

Gwneir ceisiadau i ddod yn fyfyriwr ymddiriedolwr trwy ein ffurflen ar-lein; mae manylion llawn ar gael ar ein tudalen we 'dod yn fyfyriwr ymddiriedolwr' yn **www.uwtsdunion.co.uk/cy/become-a-student-trustee**.

Mae'r dyddiad cau ar gyfer ceisiadau i'w weld yn yr hysbyseb. Os hoffech chi drafod y rôl hon gyda rhywun, anfonwch e-bost atom yn **su.governance@uwtsd.ac.uk**.

# Cymhwysedd

Mae angen i chi fodloni meini prawf penodol er mwyn gwneud cais am rôl Myfyriwr Ymddiriedolwr;

- Rhaid i chi fod yn fyfyriwr cofrestredig, cyfredol yn PCyDDS tan ddiwedd y penodiad. Gweler yr hysbyseb am yr union ddyddiadau yn **www.uwtsdunion.co.uk/cy/become-a-student-trustee**.
- Rhaid i chi fodloni rheolau cymhwysedd y Comisiwn Elusennau ar gyfer Ymddiriedolwyr: **https://www.gov.uk/guidance/charity-trustee-whats-involved**

Argymhellir bod pob ymgeisydd yn darllen canllaw'r Comisiwn Elusennau ar fod yn ymddiriedolwr: **The Essential Trustee: Yr hyn sydd angen i chi ei wybod; yr hyn sydd angen i chi ei wneud**